Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Solfach
Solfach
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 6TS

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Solfach wedi'i lleoli ym mhentref arfordirol Solfach yn Sir Benfro. Mae'n ysgol cyfrwng Saesneg ond gwneir defnydd helaeth ar y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae 80 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys naw sy'n mynd i'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae pedwar dosbarth amser llawn. Daw'r holl ddisgyblion o gartref Saesneg eu hiaith. Mae tua 9% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw cyfartaledd Cymru. Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 15% o'i disgyblion, sydd islaw cyfartaledd Cymru. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd yn 2005 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Solfach yn 2014-2015 oedd £4,169 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,240 a'r lleiafswm yw £3,570. Mae Ysgol Gynradd Solfach yn safle 32 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae medrau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen priodol
- Mae perthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion
- Mae safonau ymddygiad a lles bron pob disgybl yn uchel

Fodd bynnag:

- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd annigonol wrth ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau
- Nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm
- Nid yw cyflawniad disgyblion mwy galluog cystal â chyflawniad disgyblion mewn ysgolion tebyg ac nid yw digon o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2
- Mae gallu disgyblion i siarad Cymraeg wedi'i danddatblygu ac nid oes cynllun gan yr ysgol ar gyfer dilyniant yn y Gymraeg ar draws yr ysgol
- Nid yw cynllunio profiadau dysgu'n cynnwys gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol
- Mae disgwyliadau athrawon ynghylch cyflawniad disgyblion yn rhy isel
- Gwelwyd addysgu anfoddhaol mewn ychydig wersi

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar gynnal a gwella safonau'r holl ddisgyblion ers yr arolygiad diwethaf
- Nid yw arweinwyr yn rhoi cyfeiriad digon clir na disgwyliadau digon uchel i'r staff
- Nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon cadarn i ddwyn athrawon i gyfrif yn llawn am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion
- Mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol wedi'i thanddatblygu
- Mae diffyg ffocws mewn trefniadau monitro ac arfarnu ac nid ydynt yn darparu darlun cywir o ansawdd yr addysgu a'r dysgu

Fodd bynnag:

- Mae amrywiaeth o bartneriaethau gan yr ysgol sy'n cefnogi disgyblion yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau disgyblion mwy abl

A2 Codi safonau Cymraeg fel ail iaith

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn cynllunio'n briodol fel bod disgyblion yn gallu manteisio ar y cwricwlwm llawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol

A4 Darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A5 Gwella marcio gwaith disgyblion gan athrawon i sicrhau bod sylwadau'n cyfeirio at sut y gall disgyblion wella

A6 Sicrhau bod arweinwyr yn rhoi cyfeiriad clir i staff a disgyblion a bod ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt

A7 Datblygu rôl llywodraethwyr o ran herio'r ysgol

A8 Sicrhau bod monitro trylwyr gan arweinwyr ar bob lefel yn arwain at welliant yn neilliannau disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau da ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd boddhaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn mwynhau trafod pynciau mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Maent yn mwynhau sgwrsio ag ymwelwyr ac esboniant eu gwaith mewn ffordd gymwys. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar yr athro ac ar ei gilydd, ac yn gallu cynnal eu canolbwyntio am gyfnodau priodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen priodol. Yn y dosbarth meithrin a derbyn, gwnânt gychwyn cyson wrth ddysgu llythrennau a seiniau newydd. Wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn datblygu strategaethau addas i ddatgodio geiriau ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, gall llawer ohonynt ddarllen llyfrau sy'n briodol i'w hoedran yn gymwys. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn atgyfnerthu eu medrau ac mae llawer ohonynt yn darllen gyda mynegiant ac yn deall yr hyn y maent wedi'i ddarllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar lefel sydd o leiaf yn cyd-fynd â'u hoedran.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu'u medrau ysgrifennu. Mae disgyblion iau yn dysgu ffurfio llythrennau'n gywir a chyfleu eu syniadau'n briodol mewn brawddegau syml. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio'u medrau ysgrifennu i gofnodi gwybodaeth yn addas, er enghraifft wrth ailadrodd storïau cyfarwydd a chofnodi arbrofion gwyddonol syml. Mae llawer ohonynt yn defnyddio strategaethau ffoneg yn briodol i geisio sillafu geiriau newydd ac maent yn datblygu dealltwriaeth o atalnodi sylfaenol. Fodd bynnag, mae eu defnydd ar atalnodi mwy cymhleth yn gyfyngedig.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfleu eu syniadau'n briodol yn eu hysgrifennu ac maent yn dechrau defnyddio geirfa ddiddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad o brofiadau pobl yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mae Morfa. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymestyn eu medrau'n ddigonol trwy ysgrifennu darnau hwy at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd neu ddibenion. Mae gallu disgyblion i ailddrafftio'u gwaith yn effeithiol wedi'i danddatblygu. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso'u medrau ysgrifennu mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gallu cyfrif yn gywir hyd at 20 ac mae llawer ohonynt yn gwybod y bondiau rhif hyd at 10. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, gall llawer ohonynt adio a thynnu rhifau hyd at 100 a defnyddio unedau amser safonol yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau lluosi a rhannu yn gymwys i drosi unedau mesur. Mae llawer o ddisgyblion

hŷn yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddegolion a ffracsiynau a gallant alw ffeithiau lluosi i 12 i gof yn dda. Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod allweddol, mae gallu disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn meysydd dysgu eraill yn gyfyngedig.

Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyrraedd eu llawn botensial.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion a chyfarwyddiadau yn Gymraeg yn ystod gwersi, addoli ar y cyd ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae disgyblion yn dangos agweddau da tuag at ddysgu'r iaith ond nid oes ganddynt amgyffrediad digonol o amrywiaeth o batrymau a geirfa i gyfathrebu'n hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd. At ei gilydd, mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion wedi'u tanddatblygu.

Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf yn y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn dangos tuedd at i fyny mewn llythrennedd ond dim tuedd amlwg mewn datblygiad mathemategol. Yn y deilliant uwch na'r disgwyl, sef deilliant 6, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y ddau faes dysgu hyn yn dangos tuedd at i fyny ac mae wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi amrywio o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mewn Saesneg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mae perfformiad wedi symud yr ysgol rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg, ond mae perfformiad mewn mathemateg wedi'i symud rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf. Mae hyn yn dangos tuedd at i fyny mewn gwyddoniaeth ond dim tuedd amlwg mewn Saesneg a mathemateg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg, gan ddangos tuedd at i lawr yn gyffredinol, gyda gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn yr 50% is a'r 25% isaf yn gyson.

Mae deilliannau disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi bod yn uwch na deilliannau eu cymheiriaid mewn datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen ac mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2 dros y ddwy flynedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r angen i gadw'n heini a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn rheolaidd, ac o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn troi'n hyderus at oedolion am gymorth a chyngor.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn gyson. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion a dangosant agweddau gofalgar a pharch tuag at eraill.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi gwella'n gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant hwn wedi cadw i fyny â gwelliant mewn ysgolion tebyg. Mae presenoldeb wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros bedair blynedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau priodol yn dda. Mae'r Llysgenhadon Gwych ac aelodau'r cyngor ysgol a'r clwb eco yn deall eu rolau'n dda ac yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwneud llawer o benderfyniadau yn yr ysgol. Er enghraifft, penderfynodd disgyblion ar ba lyfrau i'w prynu ar gyfer llyfrgell newydd yr ysgol.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at ddigwyddiadau lleol ac yn cefnogi amrywiaeth o elusennau. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn canu yn y gymuned i godi arian i'r rhai sy'n llai ffodus na nhw.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da at ddysgu ac maent yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwersi. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn meddu ar y medrau priodol sy'n angenrheidiol iddynt wella'u dysgu eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae diffygion sylweddol yn y cwricwlwm y mae'r ysgol yn ei ddarparu i ddisgyblion. Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n systematig i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth na medrau disgyblion o fewn ystod briodol o gyd-destunau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rhoddir sylw cyfyngedig i feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a meysydd pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cwricwlwm cytbwys ac eang, ac nid yw profiadau dysgu yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn llawn.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn integreiddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i'w chynlluniau ar gyfer y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw cynllunio gan athrawon yn effeithiol ar gyfer helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ar draws feysydd eraill y cwricwlwm.

Nid yw'r ysgol yn cynllunio ar gyfer dilyniant yn y ffordd y mae'n datblygu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion mewn Cymraeg.

Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy amrywiol bynciau a phrosiectau yn briodol. Mae cymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol yn hybu medrau Cymraeg disgyblion mewn gwahanol gyd-destunau. Mae teithiau ac ymweliadau â gwersylloedd yr Urdd yng Nghaerdydd ac yn Llangrannog yn helpu i ymestyn y dysgu hwn.

Mae'r cyfleoedd i hybu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gyfyngedig. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn helpu disgyblion i ddeall

pwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy trwy leihau gwastraff a thrwy ailgylchu. Mae prosiect diweddar ar y Congo wedi cryfhau dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae'r perthnasoedd gwaith rhwng disgyblion a staff yn gadarnhaol, sy'n helpu i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Mae athrawon yn rheoli eu dosbarthiadau'n briodol yn y rhan fwyaf o wersi. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn canolbwyntio'n briodol ar eu tasgau. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu'n cefnogi disgyblion yn gymwys ym mwyafrif y gwersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio cymorth oedolion yn briodol er budd llawn grwpiau o ddisgyblion.

Mewn ychydig wersi lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn cymryd rhan yn eu cynllunio eu hunain, mae'r cyflymder yn dda ac mae lefel yr her yn briodol i bob disgybl. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae gormod o gyfarwyddyd gan oedolion yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Nid yw athrawon bob amser yn addasu'r tasgau'n ddigonol i herio disgyblion o bob gallu i gyflawni cystal ag y gallant, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae disgwyliadau athrawon ynghylch yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn aml yn rhy isel.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Mewn ychydig enghreifftiau, mae sylwadau ysgrifenedig yn canolbwyntio ar helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Mae llawer o athrawon yn gosod amcanion dysgu, sy'n helpu disgyblion i ddeall ffocws y wers. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae defnydd disgyblion ar hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae athrawon yn gosod targedau i bron pob un o'r disgyblion, sy'n canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cysylltu ag anghenion penodol y disgyblion yn ddigonol i wella safonau.

Mae'r ysgol yn dadansoddi ystod eang o ddata i fonitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn nodi'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ac yn cynllunio'n briodol i fodloni eu hanghenion. Mae'r trefniadau i safoni asesiadau athrawon yn briodol ac yn cynnwys yr holl athrawon.

Mae adroddiadau i rieni yn addysgiadol ac yn darparu gwybodaeth briodol am gynnydd a chyflawniadau disgyblion. Mae'r adroddiadau'n cynnwys targedau defnyddiol ar gyfer gwella ac maent yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawgar lle y mae staff yn rhoi pwyslais mawr ar les eu disgyblion. Mae trefniadau priodol ar waith i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o les a hybu ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau priodol i sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion. Mae ganddi drefniadau effeithiol i hybu ymddygiad da a phresenoldeb rheolaidd.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ymyriadau yn llwyddiannus i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol i ddisgyblion yn cynnwys targedau clir ac mae trefniadau priodol ar gyfer trafod cynnydd gyda rhieni. Mae cynorthwywyr addysgu'n rhoi cymorth ychwanegol gwerthfawr mewn dosbarthiadau ac i grwpiau bychain o ddisgyblion sydd wedi'u tynnu allan o ddosbarthiadau. Fodd bynnag, mewn ychydig wersi lle mae'r cymorth yn llai effeithiol, caiff disgyblion eu tynnu allan o wersi ar adegau amhriodol. Mae hyn yn rhwystro'u cynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, sy'n rhoi pwyslais mawr ar ei gwerthoedd. Mae ei hethos yn adlewyrchu'r berthynas waith dda rhwng staff, disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn hybu cynwysoldeb ac amrywiaeth a gall disgyblion fanteisio'n gyfartal ar brofiadau dysgu'r ysgol.

Mae adeiladau'r ysgol yn briodol ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae disgyblion yn elwa o'r buddsoddiad diweddar yn y llyfrgell a'r ardal awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Mae arddangosiadau ar y waliau, y tu mewn a'r tu allan, yn ymestyn y profiadau dysgu ac yn adlewyrchu'r dreftadaeth leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Nid yw arweinwyr yr ysgol wedi cael digon o effaith ar gynnal a gwella safonau'r holl ddisgyblion ers yr arolygiad diwethaf. Nid ydynt yn darparu cyfeiriad clir na disgwyliadau uchel i staff. O ganlyniad, nid oes digon o ffocws ar wella deilliannau dysgu i ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Er bod disgrifiadau swydd cyfredol gan aelodau staff, nid yw llinellau atebolrwydd bob amser yn glir. Mae hyn yn golygu bod llawer ohonynt yn ansicr ynghylch eu rôl, beth maent yn gyfrifol amdano ac i bwy y maent yn atebol. Mae systemau rheoli perfformiad yn briodol, ond nid oes system gadarn ar waith i fonitro cynnydd tuag at dargedau. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn herio staff yn rheolaidd i wella'u perfformiad.

Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ysgol gyfan perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith mentrau ar safonau, ac nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod staff yn cyflawni llawer o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn, fel y cytunwyd.

Nid yw'r ysgol wedi talu sylw digonol i flaenoriaethau cenedlaethol. Nid yw'n gweithredu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn gyson. Megis dechrau datblygu y mae asesu ar gyfer dysgu, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a mentrau medrau meddwl, ac mae hyrwyddo'r cwricwlwm mewn ffordd gynyddol wedi'i danddatblygu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Mae llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd a derbyniant wybodaeth am yr ysgol trwy adroddiadau'r pennaeth. Mae hyfforddiant a chyflwyniadau diweddar ar ddata cyrhaeddiad yr ysgol yn sicrhau bod llywodraethwyr yn dechrau deall beth mae angen iddynt ei wybod i herio'r ysgol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae eu rôl fel ffrind beirniadol, i ddwyn yr ysgol i gyfrif am safonau a darpariaeth, wedi'i thanddatblygu.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn manteisio'n ddigonol ar dystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth i lywio'r broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn defnyddio data ar berfformiad yn briodol ac yn gwneud defnydd digonol o adroddiadau monitro allanol. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd priodol yn systemau monitro'r ysgol ei hun er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn meddu ar ddarlun cywir o'i chryfderau a'i gwendidau ar draws bob agwedd ar ei gwaith. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ystyried digon o dystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, fel barn rhieni, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu blynyddol yr ysgol yn cysylltu'n fras â'r deilliannau yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae tua hanner y blaenoriaethau'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau cyflawniad. At ei gilydd, nid yw meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol na mesuradwy i alluogi'r ysgol i fesur effaith ei gweithredoedd. Mae cyfrifoldebau am weithredu'r camau er mwyn cyflawni targedau wedi'u dyrannu i aelodau staff. Fodd bynnag, nid yw'r camau bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar alluogi'r ysgol i gyflawni pob targed. Nid oes digon o drylwyredd mewn trefniadau monitro i alluogi'r ysgol i fesur effaith camau gweithredu ar ddeilliannau disgyblion.

Nid yw'r ysgol wedi bodloni holl argymhellion yr arolygiad diwethaf yn llawn. Mae wedi gwella ansawdd y deunyddiau darllen yn y llyfrgell ac mae safonau darllen disgyblion bellach yn briodol i'w hoedran i raddau helaeth. Fodd bynnag, dim ond cynnydd cyfyngedig a wnaed ganddi yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o'u rolau fel dinasyddion y byd, ac nid yw wedi gwneud digon o gynnydd yn datblygu trefniadau i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at wella safonau cyflawniad a lles.

Mae rhieni'n gefnogol iawn o'r ysgol ac mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cyfrannu symiau sylweddol o arian i alluogi'r ysgol i drefnu ymweliadau addysgol i ddisgyblion ac mae rhiant yn gweithio gyda disgyblion ar bwyllgor eco'r ysgol, sy'n eu helpu i godi eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd.

Mae cysylltiadau â'r gymuned yn gadarn ac amrywiol ac mae disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae enghreifftiau o gysylltiadau effeithiol â'r gymuned yn cynnwys creu arddangosfeydd celf gydag arlunydd lleol, a gwehyddion o'r felin wlân leol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y gymdeithas ddrama amatur leol ac yn arwain gwasanaethau Nadolig a'r cynhaeaf yn yr eglwys a'r capel lleol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau arbenigol i sicrhau cymorth priodol i'r holl ddisgyblion. Mae staff yn cefnogi disgyblion agored i niwed yn arbennig o dda trwy weithio'n agos gyda'r gwasanaeth cwnsela, seicolegwyr addysg a'r gwasanaeth ieuenctid, a gweithredu'n briodol yn unol â'u cyngor.

Mae cysylltiadau cryf a chynhyrchiol â'r cylch chwarae lleol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ac yn hyderus yn y dosbarth meithrin. Mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd yn effeithiol o ran paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r bartneriaeth gadarn ag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol yn hybu rhannu arfer dda yn dda. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau cytûn ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion i sicrhau bod asesiadau'n gadarn, yn gyson ac yn gywir.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o allu athrawon i ddatblygu agweddau penodol ar y cwricwlwm, er enghraifft datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn elwa o gyfleoedd i fynychu ystod o ddigwyddiadau hyfforddi priodol. Mae'r hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu'n canolbwyntio'n briodol ar ofynion arbenigol, er enghraifft cefnogi anghenion iaith a lleferydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw prosesau rheoli perfformiad yn ddigon systematig na thrylwyr i nodi anghenion datblygu proffesiynol yr holl athrawon yn ddigon da.

Er bod rhai rhwydweithiau cyffredin o arfer broffesiynol yn bodoli gydag ysgolion clwstwr, megis dechrau datblygu y mae'r defnydd arnynt i ategu gwelliant yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol, mewn partneriaeth â swyddog cyllid yr awdurdod lleol, yn rheoli cyllid yr ysgol yn foddhaol. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn arfarnu effeithiolrwydd y gwariant o ran deilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru yn addas i ddarparu cymorth llythrennedd a rhifedd ychwanegol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond nid yw arweinwyr wedi arfarnu effeithiolrwydd y strategaeth hon yn ddigon da.

Yn sgil y safonau a gyflawnir gan lawer o ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwebaeth ar ddata perfformiad

**6682263 - Ysgol Gynradd Solfach**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 10 | 16 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 77.8 | 90.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 10 | 16 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 77.8 | 90.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 10.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 10 | 16 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 30.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 10 | 16 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.2 | 20.0 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6682263 - Ysgol Gynradd Solfach**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 14 | 10 | 11 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 71.4 | 80.0 | 90.9 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 10 | 11 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 90.0 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 50.0 | 27.3 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 10 | 11 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 78.6 | 100.0 | 90.9 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 50.0 | 36.4 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 10 | 11 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 80.0 | 90.9 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 40.0 | 27.3 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur cynradd (cyffredinol)

mae hyn yn dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | | 44 | | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | | 44 | | 44<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | | 44 | | 42<br>95%<br>97% | 2<br>5%<br>3% | | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | | 44 | | 42<br>95%<br>97% | 2<br>5%<br>3% | | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | | 43 | | 43<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | | 43 | | 39<br>91%<br>96% | 4<br>9%<br>4% | | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | | 44 | | 43<br>98%<br>99% | 1<br>2%<br>1% | | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | | 43 | | 39<br>91%<br>98% | 4<br>9%<br>2% | | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | | 44 | | 41<br>93%<br>91% | 3<br>7%<br>9% | | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 44 | | 40<br>91%<br>95% | 4<br>9%<br>5% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 43 | | 32<br>74%<br>77% | 11<br>26%<br>23% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 41 | | 36<br>88%<br>84% | 5<br>12%<br>16% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

mae hyn yn dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 14 | 13 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 14 | 12 | 1 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 14 | 12 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 86% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 14 | 11 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 14 | 11 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 79% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 8 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 10 | 2 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 71% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 14 | 13 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 11 | 1 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 79% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 14 | 13 | 0 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 93% | 0% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 14 | 11<br>79% | 3<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 14 | 9<br>64% | 3<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 11<br>79% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 12<br>86% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Lisa Mererid Mead | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dilwen Smith | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.